# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 10 Mai 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd
7 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd

### Amcan 1 (Uned Werthuso)

**C4 Michael German:** Faint o gynnydd sydd wedi ei wneud i sefydlu uned werthuso Amcan 1? (OAQ5044)

**Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan):** Bydd y cytundeb gyda'r Comisiwn yn cynnwys rhwymedigaeth i ddarparu gwerthusiad canol-tymor o'r rhaglen Amcan 1, i'w gyflawni gan asesydd annibynnol, dair blynedd ar ôl mabwysiadu'r rhaglen a ddim hwyrach na 31 Rhagfyr 2003. Mae ôl-werthusiad pellach i'w gwblhau ddim hwyrach na thair blynedd ar ôl i gyfnod y rhaglen ddod i ben.

Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru a fydd yn gyfrifol am drefnu'r gwerthusiad canol-tymor. Gwneir darpariaeth ar gyfer hyn, ac ar gyfer paratoi'r adroddiadau gweithredu blynyddol, o fewn strwythur Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Cyfrifoldeb y Comisiwn Ewropeaidd fydd yr ôl-werthusiad.

### Map Cymorth Rhanbarthol Dewisol (Sir Fynwy)

**C5 David Davies:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatgan pam nad oedd ardal fwyaf difreintiedig Sir Fynwy, Llanelly Hill, wedi cael ei chynnwys ar y map cymorth rhanbarthol dewisol? (OAQ5019)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi pennu bod yn rhaid i ardaloedd cymorth fod yn hunangynhwysol, cywasgedig a chyffiniol a'u bod â phoblogaeth o 100,000 o leiaf. Yn ychwanegol, rhaid iddynt fod yn gymwys ar sail ystadegau cyflogaeth, diweithdra, segurdod neu ddibyniaeth ar weithgynhyrchu—ar o leiaf un o'r rhain mae'n rhaid i'r ardal fod fwy na hanner gwyriad safonol yn waeth na'r cyfartaledd i'r holl ardaloedd nad oes ganddynt statws Amcan 1. Nid yw Llanelly Hill yn bodloni'r meini prawf hyn, ac nid oedd felly'n bosibl i'r ardal hon gael ei chynnwys ar y map arfaethedig.

### Diogelu Swyddi Gweithgynhyrchu yng Nghymru

**C6 Janet Davies:** Beth mae'r Prif Ysgrifennydd wedi ei wneud yn ddiweddar i ddiogelu swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru? (OAQ5038)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Cynulliad, ynghyd â'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a sefydliadau eraill, yn hyrwyddo'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru yn egnïol, drwy gefnogaeth o du buddsoddiad uniongyrchol tramor a busnesau cynhenid fel ei gilydd.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru a minnau'n cael trafodaethau rheolaidd ynglŷn â'r mater hwn gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU.

## Cynigion Arfaethedig i brynu Hyder

**C7 Glyn Davies:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu cyfarfod â Phrif Weithredwr Hyder er mwyn trafod y cynigion arfaethedig i brynu'r cwmni? (OAQ5158)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf fi ac Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Chynllunio wedi cwrdd â phrif weithredwr presennol Hyder a chynrychiolwyr y rheini a wnaeth y cynnig i brynu'r cwmni ac wedi trafod y cynigion arfaethedig i'w brynu.

Byddaf yn ceisio cynnal cysylltiadau o'r fath a chael sicrwydd priodol ynglŷn â dyfodol Hyder a'i weithrediadau yng Nghymru, gyda golwg yn arbennig ar fuddiannau ei weithwyr, y cwsmeriaid a rhaglenni buddsoddi ac amgylcheddol bwriedig y cyfleustodau dŵr a thrydan, a rheolaeth y grŵp i'r dyfodol.

## Cau Ffatrïoedd Bairdwear

**C8 Carwyn Jones:** Beth a wneir i gynorthwyo'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio o ganlyniad i gau ffatrïoedd Bairdwear yng Nghymru? (OAQ5047)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Anerchodd aelodau o'r GMB Aelodau'r Cynulliad ar 17 Ionawr a chyfarfûm â Mr Tony Harris, swyddog diwydiannol rhanbarthol y GMB dros dde Cymru ar 14 Chwefror a rheolwr caffael Marks & Spencer, Mr Joe Rowe, ar 23 Chwefror. Mae'r Cynulliad, y Gwasanaeth Cyflogi a'r cynghorau hyfforddiant a menter i gyd yn gweithio'n galed i helpu'r rheini sydd yn colli eu swyddi yn Bairdwear. Yn benodol, mae pecyn o fesurau ymateb cyflym wedi ei sefydlu sydd yn cynnwys presenoldeb o'r Gwasanaeth Cyflogi ar-y-safle gyda chyngor, canllawiau a chefnogaeth ar amryw faterion.

Fodd bynnag, ni allwn anghofio'r ffaith i ffatrïoedd Bairdwear gau yn sgîl penderfyniad masnachol gan Marks & Spencer. Wedi dweud hynny, mae'n flin iawn gennyf i'r diswyddiadau hyn ddigwydd.

## Creu Swyddi mewn ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf

**C9 Cynog Dafis:** Pa gamau mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i sicrhau y bydd yr ymrwymiad i greu swyddi yn yr ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf a gynhwysir yn y ddogfen 'Gwellcymru.com' yn cael ei wireddu? (OAQ5034)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd creu swyddi yn yr ardaloedd sydd yn fwyaf eu hangen yn parhau i fod yn flaenoriaeth bennaf i'r Cynulliad drwy gynlluniau presennol megis cymorth rhanbarthol dewisol, rhaglenni'r Awdurdod Datblygu ac, wrth gwrs, raglenni cronfeydd strwythurol Ewrop. Bydd y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol yn rhoi sylw i'r blaenoriaethau strategol yn y maes hwn a meysydd eraill.

## Cynlluniau Awdurdodau Lleol ar gyfer Arian Amcan 1

**C10 Jane Davidson:** Pryd fydd gan awdurdodau lleol yn yr ardal Amcan 1 gynlluniau mewn grym er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr arian newydd? (OAQ5156)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae partneriaethau lleol un ai wedi eu sefydlu neu'n cael eu sefydlu ym mhob un o'r 15 ardal awdurdod lleol o fewn y map Amcan 1. Bydd gan bob un fwrdd partneriaeth gydag aelodaeth gydradd o'r sector cyhoeddus, partneriaid cymdeithasol (busnes ac undebau) a'r trydydd sector (grwpiau gwirfoddol a chymuned). Mae swyddogion o Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru wedi cwrdd â chynrychiolwyr y partneriaethau ym mhob ardal i drafod y cynnydd a wnaethpwyd. Disgwylir y bydd y byrddau partneriaeth wedi cynnal o leiaf un cyfarfod ffurfiol o fewn yr ychydig wythnosau nesaf. Ar sail yr ystod o waith yr ymgymerwyd ag ef eisoes ym mhob ardal, byddant yn datblygu prosiectau allweddol ar unwaith gyda'r nod o gynhyrchu cynlluniau gweithredu Amcan 1 erbyn yr hydref fan bellaf.

### Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol Ddrafft (Cyfnod Ymgynghori)

**C11 Gareth Jones:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gadarnhau'r amserlen ar gyfer cyhoeddi a sefydlu cyfnod ymgynghori ar gyfer y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ddrafft? (OAQ5030)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf chi at yr ateb a roddais i Rhodri Glyn Thomas yn y Cyfarfod Llawn yn gynharach heddiw.

### BAe Systems (Cymorth Ariannol)

**C12 Peter Rogers:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ynghylch darparu cymorth ariannol ar gyfer BAe Systems ym Mrychdyn? (OAQ5021)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes gennyf fawr i'w ychwanegu at y datganiad a wneuthum i'r Cynulliad ar 28 Mawrth ynglŷn â chais BAe Systems am gymorth o dan y cynllun RSA. Ers hynny yr wyf wedi cwrdd â'r cwmni a chynrychiolwyr undeb. Mae'r trafodaethau gyda'r cwmni yn parhau ar lefel swyddogion.

### Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol (Gweithredu)

**C13 Ieuan Wyn Jones:** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu gweithredu'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol newydd? (OAQ5031)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf chi at yr ateb a roddais i Rhodri Glyn Thomas yn y Cyfarfod Llawn yn gynharach heddiw.

### Map Cymorth Rhanbarthol Dewisol (Brymbo)

**C14 Janet Ryder:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael unrhyw drafodaethau â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynghylch hepgor Brymbo o'r map rhanbarthau cymorth? (OAQ5023)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ydwyf. Mae fy swyddogion a minnau wedi bod mewn cysylltiad agos a rheolaidd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar y mater hwn.

### Dogfen Raglennu Sengl Amcan 1 (Negodiadau â'r Comisiwn Ewropeaidd)

**C15 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd roi adroddiad ar y cynnydd a wneir yn y negodiadau â'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch cyflwyno fersiwn terfynol dogfen raglennu sengl Amcan 1? (OAQ4986)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r negodiadau'n parhau ar ddwy set o faterion. Mae'r swyddogion yn gobeithio dod â'r trafodaethau ar gynnwys technegol penodau gweithredu'r dogfennau rhaglennu sydd i'w cyflwyno o'r DU i ben erbyn diwedd yr wythnos hon. Ar y mater penodol Cymreig o ddyrannu adnoddau ymysg y gwahanol flaenoriaethau (gan gynnwys seilwaith), yn dilyn trafodaethau pellach rhwng y swyddogion yr wyf yn ysgrifennu at y Comisiynydd Barnier. Yr ydym yn dal i anelu at gyflwyno'r ddogfen erbyn canol y mis.

### Rhaglenni Cyllido Amcan 1, 2 a 3 (Gweithredu)

**C16 William Graham:** A yw'r cynlluniau i gyllido rhaglenni Amcan 1, 2 a 3 yn barod i'w rhoi ar waith o fewn yr amser gofynnol? (OAQ 5167)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae holl brif raglenni'r cronfeydd strwythurol i Gymru yn rhedeg ar amser. Mae'r testun manwl ar gyfer Amcanion 1 a 3 yn cael ei gwblhau'n derfynol ar hyn o bryd drwy gytundeb gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Dylai hyn ganiatáu i'r rhaglenni ddechrau cael eu rhoi ar waith ym mis Gorffennaf yn unol ag ardaloedd eraill y DU. Bydd y Cynulliad yn trafod rhaglen ddrafft Amcan 2

ddiwedd y mis hwn cyn ei chyflwyno i'r Comisiwn fel sail i negodi arni. Mae hyn rai wythnosau y tu ôl i rai o ranbarthau eraill y DU ond yng nghyd-destun rhaglen saith mlynedd mae'n llwyr o fewn y ffrâm amser sydd yn ofynnol yn ôl y rheoliadau ac yn ôl gofynion trefniadau gweithredu synhwyrol, fel ei gilydd.

### Rhaglen Fusnes Mentrau Bach a Chanolig eu maint (Cymoedd De Cymru)

**C17 Geraint Davies:** Faint o'r 1,500 o gwmnïau a fydd yn derbyn cefnogaeth sylweddol o dan raglen fusnes mentrau bach a chanolig eu maint Cymru a lansiwyd yn ddiweddar sydd wedi eu lleoli yng nghymoedd de Cymru? (OAQ5165)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Prosiect o dan arweiniad yr Awdurdod Datblygu yw hwn felly cysylltais â hwy i gael y manylion a geisiwch. Dywedwyd wrthyf nad oes unrhyw ffigurau penodol wedi eu gosod ar gyfer cymoedd de Cymru. Fodd bynnag, y targed i dde diwydiannol Cymru yw darparu cefnogaeth drylwyr i 1,000 o gwmnïau. Cefais sicrwydd y bydd yr Awdurdod Datblygu yn ceisio sicrhau cynrychiolaeth lawn a theg o blith cwmnïau o'r Cymoedd.

### Cyhoeddi Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol Ddrafft

**C18 Dafydd Wigley:** Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i sicrhau bod y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ddrafft yn cael ei chyhoeddi yn y dyfodol agos fel y nodwyd yn Atodiad 1 dogfen 'Gwellcymru.com'? (OAQ4985)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf chi at yr ateb a roddais i Rhodri Glyn Thomas yn y Cyfarfod Llawn yn gynharach heddiw.

### Hunaniaeth Gymreig (Effaith ar Ddatblygu Economaidd)

**C19 Peter Black:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar y feirniadaeth a wnaed yn ddiweddar o'r awgrym yn y ddogfen raglennu sengl y gallai hyrwyddo hunaniaeth Gymreig fod yn rhwystr i ddatblygu economaidd? (OAQ5041)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid yw'r ddogfen raglennu sengl a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 12 Ebrill yn cynnwys unrhyw awgrym y gallai hyrwyddo hunaniaeth Gymreig fod yn rhwystr i dwf economaidd. I'r gwrthwyneb, mae'r ddogfen yn nodi'n benodol bod defnyddio 'Cymreictod' yn gyfle y dylid manteisio arno wrth farchnata a hyrwyddo gorllewin Cymru a'r Cymoedd a'u cynnyrch.

### Hyder (Effaith ar Swyddi)

**C20 Peter Black:** Pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o'r effaith y gallai'r cynigion i brynu Hyder Plc gan Nomura a Western Power Distribution ei chael ar swyddi yng Nghymru? (OAQ5042)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cais Nomura yw'r unig gynnig pendant sydd wedi'i wneud am Hyder ar hyn o bryd. Cefais sicrwydd gan gynrychiolwyr Nomura nad oes ganddynt unrhyw gynlluniau i chwalu grŵp Hyder nac i golli swyddi y tu hwnt i'r hyn a gyhoeddwyd y llynedd, ac mae hynny wedi ei gyflawni i raddau helaeth erbyn hyn.

Byddwn am edrych yn drylwyr ar fanylion unrhyw gais pellach i brynu Hyder, gan gynnwys y goblygiadau o ran cyflogaeth yng Nghymru, fel a phan y câi ei ffurfioli.

### Rhwydweithiau Menter Lleol

**C21 Jane Davidson:** Pa gefnogaeth all y Prif Ysgrifennydd ei rhoi i sefydlu rhwydweithiau menter lleol? (OAQ5157)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Cyswllt Busnes, sydd yn hwyluso rhwydweithio effeithiol – ar lefel leol a chenedlaethol – rhwng busnesau a'r prif sefydliadau cefnogi busnes yng Nghymru, yn cael ei noddi'n uniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Eleni, mae'r Cynulliad yn darparu £2.5 miliwn i Gyswllt Busnes Cymru Cyf i gefnogi ystod o weithgareddau, gan gynnwys gwaith y partneriaethau Cyswllt Busnes lleol.

**Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol (Ystyried ac Ymateb)**

**C22 Ieuan Wyn Jones:** Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu eu cymryd i sicrhau y bydd cyfnod ymgynghori priodol ar gyfer pobl a sefydliadau drwy Gymru gyfan i ystyried ac ymateb i fersiwn y Llywodraeth y mae ef yn aelod ohoni o'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ddrafft? (OAQ5032)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf chi at yr ateb a roddais i Rhodri Glyn Thomas yn y Cyfarfod Llawn yn gynharach heddiw.

**Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd**

**C23 Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i gynorthwyo datblygiad Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd? (OAQ4987)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cydnabyddaf y rôl allweddol sydd gan Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn hyrwyddo potensial economaidd a thwristaidd Cymru, a chroesawaf y datblygiadau positif y mae'r maes awyr eisoes wedi ymgymryd â hwy. Mae'n un o'r meysydd awyr sydd yn tyfu gyflymaf ym Mhrydain, yn gwasanaethu llawer o gyrchfannau domestig a rhyngwladol. Mae ei berchnogion, TBI, wedi buddsoddi mewn adeiladau terfynfa a chyfleusterau newydd, ac yn dweud bod niferoedd y teithwyr yn dal i gynyddu.

Bydd yr astudiaeth gwasanaethau awyr rhanbarthol i Gymru, a gomisiynwyd gennym ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, yn help inni asesu'r cyfleoedd ar gyfer twf pellach yn y gwasanaethau. Disgwylir i ganlyniadau'r astudiaeth gael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni, a byddant ar gael ar gyfer ymgynghori cyhoeddus yn fuan wedyn.

**Datganiad ar Arian Grantiau Prosiect**

**C24 Lorraine Barrett:** A all y Prif Ysgrifennydd wneud datganiad ynghylch grantiau prosiect trwyn Penarth a'i gwneud yn glir dros ba gyfnod o amser y bydd yr arian a ddatganwyd ar gyfer y prosiect llwybr pentir ar gael? (OAQ4983)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae cyfraniad cyllido'r Cynulliad tuag at gwblhau cynllun cyswllt Penarth gan Gyngor Sir Bro Morgannwg wedi ei gyfyngu i uchafswm o £7.5 miliwn fel a ganlyn:

| 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 |
|---|---|---|---|---|
| £0.5m | £1m | £1m | £2m | £3m |

**BAe Systems (Awyren Super Jumbo)**

**C25 Janet Ryder:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael unrhyw drafodaethau pellach â BAe Systems yn dilyn y diddordeb a ddangoswyd yn ddiweddar yn ei ffatri ym Mrychdyn pan gyhoeddwyd yr archebion cyntaf ar gyfer yr awyren super jumbo newydd? (OAQ5022)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cefais drafodaethau'n ddiweddar gyda'r cwmni a chynrychiolwyr undeb, ond cynhaliwyd y rhain cyn i unrhyw archebion am yr awyren super jumbo newydd gael eu cadarnhau. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r cwmni ar lefel swyddogion.

### Swyddi Gweithgynhyrchu yng Nghymru (Trafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth)

**C26 Janet Davies:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael trafodaethau'n ddiweddar gyda gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch y bygythiadau parhaus i swyddi yng Nghymru a'r swyddi gweithgynhyrchu a gollwyd? (OAQ5037)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru a minnau yn cael trafodaethau rheolaidd am y mater hwn gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU.

### Ymdrin â Thlodi a Diweithdra (Ynys Môn)

**C27 Peter Rogers:** Pa fesurau y gwnaiff y Prif Ysgrifennydd eu cymryd i ymdrin â thlodi a diweithdra ar Ynys Môn? (OAQ5046)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae ystod o fesurau y mae'r Cynulliad yn eu dilyn er mwyn ymdrin â thlodi a diweithdra ar draws Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddi amser ac arian mewn pobl (er enghraifft ailhyfforddi, darparu sgiliau newydd), eu cymunedau a busnesau. Er enghraifft, ehangodd pedwar cwmni o fewn ardal Awdurdod Lleol Ynys Môn yn ystod 1999/2000, gyda chymorth rhanbarthol dewisol, gan ddiogelu 71 o swyddi ac addo creu 154 o swyddi ychwanegol.

Yn ychwanegol, mae'r Cynulliad, Awdurdod Datblygu Cymru ac eraill yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda'r Cyngor Sir i hyrwyddo ac adfywio economi Ynys Môn. Mae'r Awdurdod wedi ymuno mewn Memorandwm Dealltwriaeth sydd yn darparu fforwm ar gyfer cynlluniau ar y cyd â'r Cyngor Sir mewn perthynas â'r rhaglenni datblygu economaidd a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Datblygu.

Yr wyf hefyd wedi lobïo'n egnïol o blaid codi'r orsaf nwy yn Rhos-goch, Ynys Môn. Yn wir, cyfarfûm â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwydiant a Masnach ar 29 Mawrth i drafod y sefyllfa ac yr wyf yn mawr groesawu codi'r polisi caniatadau llymach ar orsafoedd nwy. Gallai hynny agor y ffordd i ddatblygu prosiect Rhos-goch.

### Map Cymorth Rhanbarthol Dewisol (Stad Ddiwydiannol Wrecsam)

**C28 Karen Sinclair:** A all y Prif Ysgrifennydd roi sicrwydd ei fod wedi rhoi ei gefnogaeth lwyr i'r apêl gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Aelodau Cynulliad gogledd Cymru i ailosod wardiau Holt, Marchwiail, Rhiwabon, Cefn Mawr a Phlas Madog, ar y map cymorth rhanbarthol dewisol newydd arfaethedig er mwyn sicrhau bod stâd ddiwydiannol Wrecsam yn cael ei chynnwys? (OAQ4984)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cyflwyno cynnig manwl ar y mater hwn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Cynulliad. Mae fy swyddogion wedi bod mewn trafodaethau gyda Wrecsam a bellach maent mewn trafodaethau gyda'r DTI ynglŷn â manylion y cynnig.

### BAe Systems (Cymorth Ariannol)

**C29 Nick Bourne:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau pellach mewn perthynas â darparu cefnogaeth ariannol i BAe Systems ym Mrychdyn? (OAQ5155)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cefais drafodaethau gyda BAe Systems a chynrychiolwyr undeb yn ddiweddar. Mae trafodaethau gyda'r cwmni yn parhau ar lefel swyddogion.

### Dogfen Raglennu Sengl Amcan 1 (Negodiadau â'r Comisiwn Ewropeaidd)

**C30 Phil Williams:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatgan beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf yn achos y negodiadau â'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â chyflwyniad terfynol dogfen raglennu sengl Amcan 1? (OAQ5036)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf chi at yr ateb a roddais ar yr un pwnc i Dafydd Wigley heddiw.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

### Arolwg Cynhwysfawr o Wariant

**C4 Jocelyn Davies:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Cyllid ddatganiad ar gynnydd yr arolwg cynhwysfawr o wariant? (OAQ5004)

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Mae arolwg gwariant y Trysorlys ar y gweill ar hyn o bryd a disgwylir i'r canlyniad gael ei gyhoeddi ganol mis Gorffennaf.

### Dyraniad Cronfeydd i Awdurdodau Datganoledig

**C5 Jenny Randerson:** A oes gan yr Ysgrifennydd Cyllid unrhyw gynlluniau i gwrdd â chynrychiolwyr Cynulliad Llundain i drafod dyraniad cronfeydd i awdurdodau datganoledig yn y DU? (OAQ4992)

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau o'r fath. Mae'r trefniadau i gyllido Cynulliad Llundain yn gwbl wahanol i'r rheini ar gyfer y gwledydd datganoledig.

### Ceiswyr Nodded

**C6 Jocelyn Davies:** Beth fydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn ei wneud i sicrhau bod ceiswyr nodded sydd yn dod i Gymru yn cael cyfle cyfartal yng Nghymru? (OAQ5054)

**Edwina Hart:** Bydd y Cynulliad yn chwarae rhan lawn yn annog awdurdodau lleol ac eraill i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Mewnfudo a Nodded 1999. I helpu'r broses hon ymunodd swyddog o Gyngor Ffoaduriaid Cymru â'r Cynulliad ar secondiad fel swyddog cyswllt ar faterion nodded a ffoaduriaid. Mae'n dod â'r asiantaethau sydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i geiswyr nodded a'r rheini yn y Cynulliad sydd â chyfrifoldebau cysylltiol at ei gilydd er mwyn annog ymateb cydlynus.

Y Swyddfa Gartref sydd yn gyfrifol am y cynllun gwasgaru nodded drwyddo draw ac mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol Cymru.

### Defnyddwyr System Osiris (Diogelwch Cyfrineiriau)

**C7 William Graham:** Pa gamau y mae yr Ysgrifennydd Cyllid wedi eu cymryd, neu y bydd yn eu cymryd, i roi diwedd ar yr arfer o ddiogelwch cyfrineiriau gwael gan ddefnyddwyr system Osiris? (OAQ5052)

**Edwina Hart:** Mae'r polisi ar rannu cyfrineiriau yn ddigon clir ac mae'n berthnasol i holl ddefnyddwyr system OSIRIS. Ni chaniateir rhannu cyfrineiriau gydag eraill. Atgoffir defnyddwyr system OSIRIS o'r rheol hon o bryd i'w gilydd ac os profir bod defnyddwyr wedi torri'r rheol, yna cymerir camau. Fel rhan o'r uwchraddio sydd wedi'i gynllunio ar gyfer yr haf, ceir rhaglen hyfforddi bellach a fydd yn atgyfnerthu'r angen i arfer gwell diogelwch.

### Diwygio Fformwla Barnett

**C8 Peter Black:** Yn sgîl ethol Maer a Chynulliad Llundain, pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd Cyllid i alw cyfarfod o holl gyrff datganoledig y DU i gytuno ar ddull cyffredin o ddiwygio fformwla Barnett? (OAQ4999)

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau o'r fath.

## Cyfleoedd Cyfartal

**C9 Janice Gregory:** Sut y bydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn sicrhau bod holl gwmnïau a chontractwyr y Cynulliad yn rhoi sylw teilwng i arferion da o ran cyfle cyfartal? (OAQ4979)

**Edwina Hart:** Mae amodau contract safonol y Cynulliad yn cynnwys darpariaeth ar gyfer hyn o dan y pennawd 'Rhwymedigaethau Statudol'. Mae'n darllen:

'Mae'r Contractwr i gydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol, ar gyfer y cyfnod sydd mewn grym gan gynnwys, ond heb ragfarnu cyffredinoldeb yr uchod, y rheini sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a hylendid a'r rheini o dan ddeddfwriaeth mewn perthynas â chyflogaeth, cysylltiadau hiliol a gwahaniaethu ar sail rhyw. Mae'r Contractwr i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob un sy'n gyflogedig gan y Contractwr neu sy'n asiant iddo a phob is-gontractwr a gyflogir i gyflawni'r Contract yn cadw at y darpariaethau hyn. Mae'r Contractwr i indemnio'r Cleient a'r Goron yn erbyn yr holl achosion, hawliadau, colledion, galwadau costau a threuliau y gall y Cleient eu dioddef neu eu tynnu o ganlyniad i dorri'r amodau hyn neu mewn cysylltiad â hynny.'

Mae rheolwyr contract yn cynnal cyfarfodydd monitro contractau rheolaidd gyda chontractwyr i sicrhau bod gofynion y contractau yn cael eu cyflawni ac y cedwir at amodau'r contractau.

## Fformwla Barnett (Trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru)

**C10 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi eu cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn ag adolygu fformwla Barnett? (OAQ5055)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ffurfiol gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â'r fformwla. Fel yr wyf wedi ei gwneud yn glir o'r blaen, nid oes unrhyw gynlluniau i adolygu fformwla Barnett ar hyn o bryd.

## Arolwg Cynhwysfawr o Wariant (Cyllideb y Cynulliad)

**C11 David Lloyd:** Pa sylwadau a wnaed fel rhan o'r arolwg cynhwysfawr o wariant mewn perthynas â chyllideb y Cynulliad yn 2002-03? (OAQ5014)

**Edwina Hart:** Bydd cyllideb Cymru yn cael ei phennu'n bennaf, wrth gwrs, gan y rheolau cyllido yn yr arolwg o wariant, er bod deialog ar y gweill rhyngom a'r Trysorlys ar gyllid Amcan 1 a materion eraill.

## Trwyddedau Ffonau Symudol (Trafodaethau â Chydweithwyr yn San Steffan)

**C12 David Davies:** A yw'r Ysgrifennydd Cyllid wedi cynnal trafodaethau â chydweithwyr yn San Steffan i weld a fydd yr arian a ddaeth i law yn ddiweddar drwy werthu trwyddedau ffonau symudol yn effeithio ar gyllideb Cymru? (OAQ5059)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ffurfiol ar y mater hwn.

## Setliad Ariannol Newydd i Gymru

**C13 Dafydd Wigley:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Cyllid adroddiad ar gynnydd tuag at gytuno ar setliad ariannol newydd i Gymru? (OAQ4978)

**Edwina Hart:** Mae cyllideb Cymru yn cael ei phennu'n bennaf wrth gwrs drwy gymhwyso fformwla Barnett i newidiadau mewn rhaglenni cymharol yn Lloegr. Caiff y newidiadau i'n cyllideb ni am y tair blynedd nesaf a fydd yn deillio o hynny eu cyhoeddi fel rhan o arolwg gwariant y Llywodraeth ym mis Gorffennaf.

**Cynnig NDM268 (Gwell Cymru)**

**C14 Brian Hancock:** Sut y mae'r Ysgrifennydd Cyllid yn bwriadu gweithredu'r gwelliant i gynnig NDM268 (Gwell Cymru), sydd yn ymwneud â darparu arian digonol gan Lywodraeth y DU? (OAQ5008)

**Edwina Hart:** Caiff cyllideb Cymru am y tair blynedd nesaf ei phennu'n bennaf drwy gymhwyso'r rheolau cyllido. Fodd bynnag, yr ydym yn ceisio sicrhau ein bod yn derbyn darpariaeth ychwanegol y tu allan i drefniadau fformwla Barnett gogyfer â goblygiadau cyllido Amcan 1.

**Arolwg Cynhwysfawr o Wariant (Mwy o Gyllid)**

**C15 Rhodri Glyn Thomas:** Pa sylwadau a wnaed ar ran Cymru fel rhan o'r arolwg cynhwysfawr o wariant am fwy o gyllid ar gyfer cyllidebau Cymru yn y dyfodol? (OAQ5012)

**Edwina Hart:** Bydd cyllideb Cymru yn cael ei phennu'n bennaf wrth gwrs gan y rheolau cyllido yn yr arolwg o wariant, er bod deialog ar y gweill rhyngom a'r Trysorlys ar gyllid Amcan 1 a materion eraill.

**Cynnig NDM286 (Gwell Cymru) (Ymrwymiadau Newydd)**

**C16 David Lloyd:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Cyllid ddatganiad ar sut y mae'n bwriadu ariannu'r ymrwymiadau newydd a wnaed o ganlyniad i gynnig NDM286 (Gwell Cymru), fel y'i cymeradwywyd ar 5 Ebrill 2000? (OAQ5013)

**Edwina Hart:** Mae'r holl ganlyniadau a ddangosir yn rhaglen fanwl y Llywodraeth, 'Gwellcymru.com', yn fforddiadwy o fewn ein cyllideb gyfredol, er ein bod wedi tybio y bydd adnoddau ar gael inni i symud ymlaen fel y bwriadwyd gydag Amcan 1.

**Cynnig NDM268 (Gwell Cymru) (Rhaglen ar Ddata Cadarn)**

**C17 Ieuan Wyn Jones:** Sut y mae'r Ysgrifennydd Cyllid yn bwriadu gweithredu'r diwygiad i gynnig NDM268 (Gwell Cymru) sydd yn ymwneud â'r rhaglen ar ddata cadarn? (OAQ5003)

**Edwina Hart:** Yr ydym eisoes yn gweithio'n galed i sicrhau bod polisïau'n cael eu seilio ar well tystiolaeth. Cyhoeddodd y Cynulliad gynllun ystadegau drafft yn ddiweddar i ymgynghori yn ei gylch. Bydd y broses hon yn help i sicrhau bod gofynion data wedi'u nodi. Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar archwilio'r data yng nghylch y gyllideb sydd i'w gynnal yn fuan.

**Bwlch Cyflogau yng Nghymru**

**C18 Gareth Jones:** Pa fesurau y bydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn eu cymryd i leihau'r bwlch cyflogau yng Nghymru rhwng dynion a menywod? (OAQ5056)

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ym mhob agwedd o fywyd Cymru gan gynnwys y gweithle lle mae'n rhaid seilio lefelau cyflog ar y gwaith a gyflawnir ac nid ar ryw y sawl a gyflogir. Byddaf am i Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad edrych ar y mater hwn yn fuan, yn enwedig yng ngoleuni ymrwymiad TUC Cymru, a wnaethpwyd yn ei gynhadledd yr wythnos diwethaf, i oresgyn y broblem hon. Yr wyf yn croesawu'r ymrwymiad yn fawr iawn.

**System Tymheru'r Awyr yn Adeilad y Cynulliad**

**C19 Glyn Davies:** Beth fydd cost derfynol gosod system tymheru'r awyr yn adeilad y Cynulliad? (OAQ5151)

**Edwina Hart:** Mae'r gwaith i osod system tymheru'r awyr yn adeilad y Cynulliad yn dal i fynd rhagddo, felly ni ellir cadarnhau'r gost derfynol ar hyn o bryd. Swm y contract yw £1,169,220 (gan gynnwys TAW a ffïoedd yr asiant) a rhagwelir y bydd y gost derfynol yn agos iawn at y ffigur hwn. Ni thelir mwy na'r swm a ddyfynnwyd.

**Ariannu Awdurdodau Datganoledig**

**C20 Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd Cyllid i gyfarfod â chynrychiolwyr Cynulliad Llundain i drafod ariannu awdurdodau datganoledig yn y DU? (OAQ4991)

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau o'r fath.

**Arolwg Cynhwysfawr o Wariant (Prosiectau a Ariennir gan yr UE)**

**C21 Phil Williams:** Pa sylwadau a wnaed ar ran Cymru, fel rhan o'r arolwg cynhwysfawr o wariant, er mwyn helpu i sicrhau llwyddiant prosiectau a ariennir gan yr UE? (OAQ5010)

**Edwina Hart:** Mae Prif Ysgrifennydd y Cynulliad yn cynnal deialog parhaus gyda'r Prif Ysgrifennydd ynglŷn â'r arolwg o wariant, gan gynnwys gwneud sylwadau ar faterion yn ymwneud â'r cronfeydd strwythurol.

**Gwerthiant Trwyddedau Ffonau Symudol (£22 biliwn)**

**C22 Glyn Davies:** Faint o'r £22 biliwn y mae Llywodraeth y DU wedi'i gael yn sgil gwerthu trwyddedau ffonau symudol a ddaw i Gymru? (OAQ5150)

**Edwina Hart:** Dywedwyd y bydd yr enillion o'r arwerthiant ffonau symudol yn cael eu defnyddio i leihau dyled y sector cyhoeddus. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad ar hyn o bryd.

**Adroddiad Lawrence (Trafodaethau â Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad)**

**C23 David Melding:** A yw'r Ysgrifennydd Cyllid yn bwriadu cyfarfod â chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i drafod gweithredu Adroddiad Lawrence? (OAQ5154)

**Edwina Hart:** Cytunodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i sefydlu is-bwyllgor o blith yr holl bleidiau, wedi'i gefnogi gan swyddogion a chyda'r grym i alw ar arbenigedd allanol yn ôl y gofyn, i ystyried sut y mae'r Cynulliad yn ymdrin â chanfyddiadau adroddiad Syr William Macpherson ar yr ymchwiliad i farwolaeth Stephen Lawrence. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu gwahodd pob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i'w gyfarfodydd yn ei dro. Bydd adroddiad Lawrence yn rhan o'r trafodaethau cydraddoldeb cyffredinol a gynhelir gyda hwy.

**Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**

**C24 Jonathan Morgan:** Faint o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sydd gan y Cynulliad a faint o'r rhain y gellir eu diddymu heb orfod troi at ddeddfwriaeth sylfaenol neu'r Cyfrin Gyngor? (OAQ5057)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad yn nodi 36 o gyrff cyhoeddus (14 corff gweithredol; 17 corff cynghori; a phum tribiwnlys). O'r rhain, gellir diddymu 16 heb orfod troi at ddeddfwriaeth sylfaenol na'r Cyfrin Gyngor (h.y. saith o'r cyrff gweithredol a naw o'r cyrff cynghori).

**Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ('Renaissance')**

**C25 Janice Gregory:** A yw'r Ysgrifennydd Cyllid yn ymwybodol o'r costau a ddaeth i ran Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wrth gynhyrchu eu llyfr o dan y teitl 'Renaissance'? (OAQ4980)

**Edwina Hart:** Costiodd y gwaith o gynhyrchu, cyfieithu ac argraffu 4,500 copi o 'Renaissance' yn y Saesneg a'r Gymraeg £77,796.

I helpu i godi proffil prifddinas Cymru yn unol ag amcanion adfywio'r gorfforaeth, cafodd y cyhoeddiad ei ddosbarthu i fusnesau priodol ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn eang ledled Cymru. Yr oedd hynny'n cynnwys sefydliadau addysg uwch a phellach a llyfrgelloedd, yn ogystal â phob ysgol uwchradd a chynradd a chorff cymuned yn lleol.

### Fformwla Barnett (Trafodaethau gyda Chydweithwyr yn y Trysorlys)

**C26 Peter Rogers:** O ystyried yr holl geisiadau a gaiff yr Ysgrifennydd Cyllid i wneud sylwadau ynglŷn ag adolygu fformwla Barnett, a yw hi'n bwriadu cael trafodaethau gyda'i chydweithwyr yn Nhrysorlys Ei Mawrhydi? (OAQ5149)

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i gael trafodaethau ffurfiol gyda Thrysorlys EM ar y mater hwn, ond byddaf wrth gwrs yn gwneud hynny os byddaf yn barnu ei fod yn angenrheidiol a phriodol.

### Fformwla Barnett (Trafodaethau gyda Maer Newydd Llundain)

**C27 Peter Black:** Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd Cyllid i gyfarfod â Maer newydd Llundain i drafod ymagwedd gyffredin at ddiwygio Fformwla Barnett? (OAQ5000)

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau o'r fath. Mae trefniadau cyllido Cynulliad Llundain yn gwbl wahanol i rai'r Cynulliad.

### Dangosyddion Gwariant Safonol

**C28 Janet Davies:** A all yr Ysgrifennydd Cyllid gyflwyno adroddiad ar gyflwr presennol dangosyddion gwariant safonol? (OAQ5006)

**Edwina Hart:** Mae'r gwaith o adolygu'r fformwla asesu gwariant safonol yn mynd rhagddo fel y dylai. Yn ôl yr amserlen bydd y Cynulliad yn trafod adroddiad yr is-grŵp dosbarthu cyn gwyliau'r haf cyn mynd ati i ymgynghori. Caiff argymhellion terfynol eu cyflwyno i'r Cynulliad gan y Cyngor Partneriaeth yr hydref hwn.

### Negodiadau gyda'r Trysorlys (Amcan 1)

**C29 Alun Cairns:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Cyllid ddatganiad ar y negodiadau diweddaraf gyda'r Trysorlys i ddod o hyd i arian cyfatebol ar gyfer rhaglen Amcan 1? (OAQ5062)

**Edwina Hart:** Mae'r trafodaethau gyda'r Trysorlys yn mynd rhagddynt.

### Cynnig NDM286 (Gwell Cymru) (Uwch-gynhadledd Lisbon)

**C30 Ieuan Wyn Jones:** Sut y mae'r Ysgrifennydd Cyllid yn bwriadu gweithredu'r diwygiad i gynnig NDM286 (Gwell Cymru) yn ymwneud â phenderfyniadau cyflogaeth uwch-gynhadledd Lisbon? (OAQ5002)

**Edwina Hart:** Bydd fy nghyd-Aelodau sydd yn gyfrifol am faterion datblygu economaidd a hyfforddiant yn mynd â hyn yn ei flaen drwy'r cynllun gweithredu arfaethedig a fydd yn ymwneud â sgiliau a'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, ac yn y strategaeth cyflogaeth a nodwyd yn Gwellcymru.com, yr ydym yn rhagweld ar hyn o bryd fydd yn rhan o'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol.